

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our ref	KE/LD/JH/SR - FPN
Dyddiad/Date	22 Mehefin 2022
Gofynner am/Ask for	John Hodgson
Rhif Cyswllt/Contact No	01978 295570
E-bost/E-mail	ESW@wrexham.gov.uk

Annwyl Riant/Ofalwr

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau presenoldeb ysgolion

Hysbysir rhieni a gofalwyr yn Wrecsam bod Llywodraeth Cymru wedi symud yn ôl i ddefnyddio Rhybudd Cosb Benodedig am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol.

Yn dilyn cyhoeddiad gan Weinidog Addysg a'r Gymraeg, bydd Cyngor Sir Wrecsam yn dilyn y canllawiau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at eu haddysg.

O fis Medi 2022, bydd Rhybuddion Cosb Benodedig yn cael eu hailgyflwyno fel rhan o ystod o ddewisiadau i wella presenoldeb yn yr ysgol. Dim ond pan fydd yn amlwg nad oes rhesymau penodol sy'n atal presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol y cyflwynir Rhybuddion Cosb Benodedig, yn unol â'r cod ymddygiad lleol ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol. Dim ond ar ôl gwneud pob ymdrech posib i ymgysylltu â rhieni i annog gwelliant mewn presenoldeb a bod y rhain wedi methu y cymerir camau cyfreithiol.

Gofynnwn i'r holl rieni a gofalwyr i weithio gydag ysgolion, gan gyfathrebu unrhyw anawsterau a phroblemau sy'n effeithio ar bresenoldeb eu plentyn yn rheolaidd. Pan fo gwir reswm dros yr absenoldebau, mae'n rhaid trafod y rhain gydag ysgol eich plentyn i sicrhau cydweithio rhwng y rhieni, ysgolion a staff yr Awdurdod Lleol i gynnal presenoldeb da gan yr holl ddisgyblion yn y sir.

Roedd Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer diffyg presenoldeb ar gael i awdurdodau lleol yn ystod y pandemig, ond roedd Llywodraeth Cymru wedi argymhell na ddylid eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://gov.wales/oral-statement-school-attendance>.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am bresenoldeb mewn ysgolion gan ysgol eich plentyn neu Dîm Gwaith Cymdeithasol Addysg ar 01978 295570. Mae gwybodaeth am gymorth lles ar gyfer pobl ifanc ar gael yn [www.youngwrexham.co.uk](http://www.youngwrexham.co.uk).

Yr eiddoch yn gywir



John Hodgson  
Rheolwr Cefnogi Addysg